Papur Pleidleisio Ymarfer ar gyfer Etholiadau Lleol

Canllaw Hawdd i'w Ddarllen ar gyfer Cymru

Deall y papur pleidleisio yma

Ffurflen yw **papur pleidleisio** y mae pobl yn ei llenwi i ddangos eu dewisiadau ar bethau pwysig. Diben y papur pleidleisio hwn yw rhoi'r gallu i chi ddewis eich **cynghorydd tref, cymuned** neu **sir lleol** nesaf.



Mae gwahanol fathau o gynghorau yn gyfrifol am wahanol wasanaethau neu gyfleusterau. Cynghorau cymuned a thref sy'n rhedeg pethau fel meysydd parcio cymunedol, toiledau cyhoeddus a biniau sbwriel.

Cynghorau sir sy'n rhedeg pethau fel ysgolion, trafnidiaeth, gwasanaethau cymdeithasol a rheoli gwastraff.

Y cynghorydd etholedig ar gyfer eich cyngor tref, cymuned neu sir fydd yng ngofal y pethau hyn ar gyfer eich ardal, yn dibynnu ar ba mor fawr yw hi.



Mae'r blwch o dan y teitl yn dweud wrthoch chi sut i bleidleisio ar y papur pleidleisio. Bydd angen i chi roi X nesaf at y person yr hoffech chi ei ddewis. Bydd y papur pleidleisio yn dweud wrthoch chi ar gyfer sawl person y gallwch chi bleidleisio.



O dan y blwch hwn mae enwau'r bobl sydd am fod yn gynghorydd yn eich tref, cymuned neu sir leol. Nesaf at eu henwau, mae'n dangos i ba **blaid wleidyddol** maen nhw'n cytuno â hi.

Grŵp o bobl gyffredin sy'n dod at ei gilydd oherwydd bod ganddyn nhw syniadau tebyg am y ffordd maen nhw am helpu pobl yw plaid wleidyddol.



Er mwyn pleidleisio, rhaid i chi **roi X yn y golofn** i ddweud wrthon ni pwy hoffech chi i fod yn gynghorydd yn eich tref, cymuned neu sir leol fwyaf.

Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl i chi wneud eich dewis, rhaid i chi blygu'ch ffurflen bleidleisio a'i phostio yn y blwch pleidleisio. Bydd pobl ar gael i ddangos i chi ble mae'r blwch os bydd angen help arnoch chi.

Bydd pob papur pleidleisio yn cael ei gyfrif a bydd y person sy'n cael y rhan fwyaf o'r pleidleisiau yn dod yn gynghorydd yn eich tref, cymuned neu sir leol.

Gallwch chi ymarfer llenwi papur pleidleisio ffug isod.

Election of councillors to ***[insert name of local authority]***

Ethol cynghorwyr i ***[rhowch enw'r awdurdod lleol]***

Vote for **only one candidate** by putting a cross ☒ in the box next to your choice.

Pleidleisiwch ar gyfer **un ymgeisydd** yn unig trwy roi croes ☒ yn y blwch nesaf at eich dewis

BARBER, Ali
5 Anytown Close, Anytown, AT34 6CY
Pelican Party
Parti Pelican

BOOTS, Dusty
63 Acacia Avenue, Anytown, AT33 5XZ
League of Line Dancers
Cynghrair y Dawnswyr Llinell

CLOVER, Elizabeth Mary
9 Seymour Court, Anytown, AT12 E34
Independent
Annibynnol

GREY, Earl
2 Cedar Lane, Anytown, AT23 4YD
Mad Hatter's Tea Party

HOOD, Robin
64 Purple Road, Anytown, AT12 7HT